
PARTNERIAETH RANBARTHOL GORLLEWIN MORGANNWG

Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | West Glamorgan Regional Partnership

# CYLCHLYTHYR

TACHWEDD 2023



YN Y RHIFYN HWN:


BETH SYDD NESAF AR GYFER NYTH/NEST?

EIN HADRODDIAD BLYNYDDOL

GOFALWYR DI-DÂL - RHOI GWELEDIGAETH AR WAITH

DIWRNOD IECHYD MEDDWL Y BYD 2023

BETH ARALL SY'N NEWYDD?


## BETH SYDD NESAF AR GYFER NYTH/NEST?

Croeso i rifyn diweddaraf Cylchlythyr Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg! Mae'n bleser gennym gyflwyno rhai o uchafbwyntiau'r ychydig fisoedd diwethaf i chi, lle gwelwyd cryn gynnydd gyda'n rhaglenni gwaith rhanbarthol.

Mae wedi bod yn gyfnod arbennig o brysur i gydweithwyr sy'n ymwneud â'r rhaglen Plant a Phobl Ifanc, a maes ffocws allweddol yw rhoi fframwaith NYTH/NEST Llywodraeth Cymru ar waith.

### BETH YW NYTH/NEST?

Offeryn cynllunio yw hwn a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ystyriaethau iechyd meddwl a lles yn flaenllaw yn yr holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r **animeiddiad byr hwn** yn darparu mewnwelediad defnyddiol.




Ar 21 Medi, ymgasglodd cynrychiolwyr o bob rhan o'r rhanbarth yng Nghanolfan Gymunedol y Trallwn i gymryd rhan yn ein gweithdy NYTH/NEST.

Nod y diwrnod oedd cael dealltwriaeth ddyfnach o ofynion y fframwaith a'r 'Offeryn Hunanasesu a Gweithredu'.


Daliwch ati i ddarllen i gael gwybod mwy am weithdy rhanbarthol mis Medi...

# GWEITHDY NYTH / NEST

Dechreuodd y sesiwn gyda lluniaeth a chyfle rhwydweithio i gyfranogwyr.
Yna, rhoddwyd trosolwg o'r fframwaith a'r cynnydd hyd yma gan Helen Dale, Rheolwr Trawsnewid Gorllewin Morgannwg ar gyfer y rhaglen Plant a Phobl Ifanc.

Dilynwyd hyn gan weithgaredd grŵp rhyngweithiol â'r nod o gael darlun cyfannol o ble'r ydym fel rhanbarth wrth gyflwyno yn erbyn egwyddorion craidd NYTH/NEST, ac i rannu syniadau am sut olwg fydd ar y dyfodol.





*Meddai Julie Davies, Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Abertawe:*

*"Hwylusodd y gweithdy drafodaethau cynhyrchiol ynghylch rhoi'r fframwaith ar waith mewn modd ymarferol, a rhoddwyd cyfle gwerthfawr i ni gysylltu â'n cydweithwyr ar draws y rhanbarth a dysgu ganddynt".*

Gellir dod o hyd i gasgliad o enghreifftiau o arfer da NYTH/NEST ar waith **yma**.

# EIN HADRODDIAD BLYNYDDOL

Os oes gennych ddiddordeb yn yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y lle partneriaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Hadroddiad Blynyddol yn darparu trosolwg manwl o'r cyflawniadau allweddol a'r cerrig milltir a gyrhaeddwyd yn 2022-23.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn llawn digwyddiadau, ac rydym wedi bod yn mynd o gwmpas ein cymunedau i gynyddu ymwybyddiaeth o'r rhaglenni gwaith rhanbarthol, yn ogystal â gwneud gweithgareddau ymgysylltu rhyngweithiol gyda phreswylwyr. Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rai canlyniadau gwych yr ystod eang o gynlluniau'r trydydd sector a ariennir drwy Orllewin Morgannwg.

Cliciwch ar y ddolen isod i weld copi o'r Adroddiad Blynyddol (os oes angen y ddogfen arnoch mewn fformat amgen, mae croeso i chi gysylltu drwy'r manylion cyswllt ar ddiwedd y cylchlythyr hwn).

**Adroddiad Blynyddol 2022-23**



# GOFALWYR DI-DÂL: RHOI GWELEDIGAETH AR WAITH

Ar 6 Gorffennaf daeth gofalwyr di-dâl o Gastell-nedd Port Talbot ac Abertawe at ei gilydd yn stadiwm Swansea.com i gymryd rhan yn nigwyddiad Fforwm Cyswllt Gofalwyr Gorllewin Morgannwg. 'Gofalwyr Di-dâl - Rhoi Gweledigaeth ar Waith.

Trefnwyd y sesiwn fel dilyniant i'n digwyddiad Fforwm Pobl Gorllewin Morgannwg ym mis Ebrill a oedd yn cynnwys lansio Strategaeth Gofalwyr Ranbarthol y Bartneriaeth Gofalwyr yn swyddogol.

Nod y diwrnod oedd ystyried yn fanwl sut caiff y strategaeth newydd ei chyflwyno'n ymarferol. Roedd gofalwyr di-dâl ac aelodau staff o sefydliadau ar draws y rhanbarth wedi cymryd rhan mewn ystod eang o drafodaethau ar thema a gofnodwyd ac a gynhwyswyd mewn cynllun gweithredu.

## PRIF FEYSYDD PWNC

Roedd y prif feysydd pwnc a archwiliwyd yn ystod y sesiwn yn cynnwys Asesiadau Gofalwyr (cael mynediad at asesiadau a symud drwy'r broses), Taliadau Uniongyrchol a darparu seibiannau/seibiau byr. Roedd gan fynychwyr y cyfle hefyd i edrych ar y stondinau amrywiol yn ardal y farchnadle wrth fwynhau lluniaeth.





STADIWM SWANSEA.COM

Gwnaed gwaith gwych gan gyflwynydd y digwyddiad, Chris Law (gofalwr di-dâl ac aelod o'r Fforwm Cyswllt Gofalwyr) a Gaynor Richards (Cyfarwyddwr Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot) wrth roi'r cefndir a llywio trafodaethau ar y themâu amrywiol.

Rhoddwyd cyfle i'r rhieni nad oeddent wedi gallu dod i'r sesiwn yn bersonol gyfrannu mewn dau weithdy rhithwir, felly roedd nifer o ffyrdd i bobl gael dweud eu dweud.

*Daeth y digwyddiad hwn â dau fath o arbenigwr at ei gilydd, a rhoddodd y ddau ohonynt o'u hamser er mwyn symud y strategaeth gofalwyr yn ei blaen.*

*Roedd y set gyntaf yn cynnwys gofalwyr di-dâl – y maent yn arbenigo yn eu rôl ofalu. Roedd yr ail grŵp yn cynnwys cynghorau, iechyd, a'r trydydd sector.*

*Bydd dod ynghyd a gwrando ar ei gilydd yn symud y strategaeth hon yn ei blaen mewn ffordd gadarnhaol a bydd yn gwellau rolau'r ddwy set o arbenigwyr.*

***Linda Jaggers (Gofalwr Di-dâl)***
***Glyn-nedd***

## RHAGOR O WYBODAETH AM WAITH Y FFORWM

Ydych chi'n ofalwr di-dâl i rywun sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot neu Abertawe? Mae Fforwm Cyswllt Gofalwyr Gorllewin Morgannwg yn awyddus i gysylltu â gofalwyr di-dâl y rhanbarth. Cysylltwch i gael rhagor o wybodaeth...



01639 631 246  info@nptcvs.org.uk

# DIWRNOD IECHYD MEDDWL Y BYD 2023




Ar 10 Hydref cawsom y fraint o ymuno ag ystod eang o sefydliadau yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau Abertawe i nodi Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd 2023.

Ein partneriaid ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe drefnodd y digwyddiad a oedd yn agored i'r cyhoedd ac a oedd yn cynnwys stondinau gwybodaeth niferus, yn ogystal â rhaglen o siaradwyr gwadd ar bynciau fel atal hunanladdiad a phrofiad y claf.

Thema eleni oedd 'Mae Iechyd Meddwl yn hawl gyffredinol' i dynnu sylw at yr angen am addysg a deialog barhaol, i leihau stigma a gwella gwasanaethau Iechyd Meddwl.

Roedd y digwyddiad yn lle diogel ar gyfer annog sgyrsiau gonest a chynyddu ymwybyddiaeth o faterion Iechyd Meddwl y mae miliynau yn eu hwynebu bob dydd.





## STRATEGAETH NEWYDD

Rhoddodd y digwyddiad gyfle hefyd i aelodau tîm Gorllewin Morgannwg siarad â mynychwyr am y Strategaeth Iechyd a Lles Emosiynol newydd.

Yn ôl yn rhifyn mis Chwefror o'n cylchlythyr, darparom drosolwg o'r gwaith ymgysylltu a wnaed gennym yn ein cymunedau i gyfeirio datblygiad y strategaeth.
Bydd gennym ragor i adrodd amdano o ran camau nesaf cyflwyno'r Strategaeth yn y misoedd sy'n dod, felly cadwch lygad am hyn.

# BETH ARALL SY'N NEWYDD ?




Efallai bydd defnyddwyr craff wedi sylwi bod gwefan Gorllewin Morgannwg wedi cael ei gweddnewid. Rydym wedi treulio amser dros yr ychydig fisoedd diwethaf yn datblygu'r llwyfan newydd ac yn adolygu'r cynnwys i gynnwys ein rhaglenni gwaith newydd.

Mae'n waith sy'n dal i fod ar y gweill, felly os oes gennych unrhyw adborth, hoffem glywed beth ydyw (manylion cyswllt isod).

**www.gorllewinmorgannwg.org.uk**

Mae diweddariad arall yn ymwneud â'n hymgyrch ddiweddar, 'Ymunwch â ni'. Yr haf hwn, cysylltom â phreswylwyr y rhanbarth i annog unrhyw un â diddordeb mewn cymryd rhan yn rhaglenni gwaith y bartneriaeth i gysylltu â ni. Mae 'Ymunwch â ni' yn alwad i'r rheini sydd â diddordeb mewn rolau cynrychiolwyr gwirfoddol o fewn y bartneriaeth, neu ddod yn aelodau o fforymau amrywiol.

Mae'n bleser gennym groesawu rhai recriwtiaid newydd a fyddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am eu teithiau gyda'r bartneriaeth mewn rhifyn o'r cylchlythyr yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth am Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, e-bostiwch west.glamorgan@abertawe.gov.uk neu ffoniwch 01792 633 805.
Mae'r cylchlythyr hwn ar gael mewn fformatau gwahanol - cysylltwch â ni gyda manylion eich gofynion.